

Safon Uwch Dylunio Graffig (Amser Llawn)

Mae Dylunio Graffig Lefel UG / A yn gwrs Addysg Bellach amser llawn y gellir ei astudio hefyd fel cwrs rhan-amser annibynnol. Wedi'i gynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau gweithio yn y diwydiant Celfyddydau Creadigol, gyda'r dyheadau o ddod yn Ddylunydd Graffig. Mae hwn wedi'i leoli yn Adran y Celfyddydau Creadigol, Gweledol a Pherfformio (CVP).

Bydd y cwrs hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu sgiliau proffesiynol, technegol ac artistig mewn Dylunio Graffig. Byddwch yn cynhyrchu gwaith creadigol cyffrous yn y cyfryngau digidol a thraddodiadol, gan ddefnyddio cyfleusterau arbenigol; Cyfres gyfrifiadurol Apple Mac gan ddefnyddio Adobe Creative Suite: Photoshop, InDesign, Illustrator a meddalwedd arall, yn ogystal â lluniadu, paentio, cyfryngau print a ffotograffiaeth. Archwilir y rhain yng nghyd-destun prosiectau thematig a briffiau byw. Byddwch hefyd yn dysgu geirfa arbenigol ac yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylunwyr graffig hanesyddol a chyfoes ac artistiaid a ffotograffwyr perthnasol.

Ymgeisio am Lefelau UG neu Lefel A? Cliciwch 'Gwnech Gais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb mewn eu hastudio. Llenwch y ffurflen gais ar-lein, lle gofynnir i chi nodi'ch dau ddewis arall. Yna archebwch apwyntiad Cyfweiliad i gwrdd â'r tiwtoriaid a thrafod y dewisiadau sydd orau gennych.

Gofynion Mynediad

Os ydych chi o dan 21 oed mae'n rhaid bod gennych chi un o'r canlynol: 4 pas TGAU ar radd A* - C, (neu gyfwerth). Argymhellir TGAU Celf neu Graffeg TGAU (Dylunio Cynnyrch).

Rhagolygon Gyrfa

O'r rhaglen UG / A2 hon, gall myfyrwyr symud ymlaen i'r cwrs Diploma Sylfaen mewn Celf a Dylunio L3 / 4 yn NPTC Group neu'n uniongyrchol i brifysgol neu gyflogaeth.

Mae yna lawer o feysydd cyffrous Dylunio Graffig i anelu atynt fel gyrfa; Hysbysebu, Marchnata, Pecynnu, Dylunio Clawr Llyfrau, Cynllun a Dylunio ar gyfer Llyfrau a Chylchgronau, Poster, Cyhoeddusrwydd, ID Corfforaethol, Dylunio Tudalennau Gwe, Teipograffeg a mwy.

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre





Modiwlau'r cwrs

UG

Uned 1: Ymchwiliad Creadigol Personol.

A2

Uned 2: Ymchwiliad Personol.

Uned 3: Aseiniad Wedi'i Osod yn Allanol.

Nodweddir y cwrs hefyd gan ymagweddau eang, creadigol ac arbrolf tuag at Ddylunio Graffig, gan archwilio delweddau, cynllun a theipograffeg i gyfathrebu â chynulleidfaoedd penodol.

Bydd hyn yn galluogi dysgwyr o gyrsiau Celf, Dylunio neu Gyfryngau Lefel 2, fel Diploma TGAU neu L2, a dysgwyr aeddfed i wneud dewisiadau hyddysg am lwybrau gyrfa a dilyniant sy'n benodol i faes Dylunio Graffig.

Asesiad

Byddwch yn dysgu trwy amrywiaeth o weithdai theori ac ymarferol.

Gwneir asesiad gan ddefnyddio ystod o strategaethau asesu gan gynnwys cyflwyniadau, arddangosfeydd, adroddiadau, traethodau a phortffolio ymarferol; digidol neu draddodiadol.

Mae'r tair uned wedi'u graddio yn A * i E a chadarnheir hyn gan Gymedrolwr Allanol a fydd yn ymweld â'r Coleg i weld arddangosfa o waith a phortffolio.

Costau Ychwanegol

Gallai costau gynnwys teithiau i arddangosfeydd ac amgueddfeydd ac offer Celf a Dylunio sylfaenol e.e. brwsys paent, siswrn, pensiliau ac ati. Mae'r Coleg yn cyflenwi'r holl ddeunyddiau eraill.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk





HYD Y CWRS

2Y

Coleg Afan
Coleg Bannau Brycheiniog
Academi Chwaraeon Llandarcy
Canolfan Ragoriaeth Adeiladwaith Maesteg
Coleg Castell-nedd
Coleg Y Drenewydd
Coleg Pontardawe
Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Afan College
Brecon Beacons College
Llandarcy Academy of Sport
Maesteg Construction Centre of Excellence
Neath College
Newtown College
Pontardawe College
Swansea Construction Centre



☎ 0330 818 8100

✉ enquiries@nptcgroup.ac.uk

🌐 www.nptcgroup.ac.uk

